



Ail Gynllun Datblygu Lleol Newydd
Bwrdeistref Sirol Caerffili 2020-2035

EB22: Papur Tystiolaeth Twristiaeth

Hydref 2026

Bwrdeistref Sirol Caerffili
Ail Gynllun Datblygu Lleol Newydd
2020 – 2035
Twristiaeth
Crynodeb Annhechnegol

Crynodeb Annhechnegol

Mae'r papur hwn yn darparu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer polisiâu twristiaeth yn Ail Gynllun Datblygu Lleol Newydd Bwrdeistref Sirol Caerffili (2020-2035). Mae'n adolygu'r asedau twristiaeth presennol, tueddiadau ymwelwyr, darpariaeth llety a chyfleoedd i'r dyfodol er mwyn cefnogi twf twristiaeth gynaliadwy ledled y fwrdeistref sirol.

Mae twristiaeth yn gwneud cyfraniad sylweddol i economi Cymru ac i'r economi leol. Mae gan Gaerffili ystod eang o atyniadau gan gynnwys safleoedd hanesyddol, parciau gwledig, cyfleusterau hamdden awyr agored, digwyddiadau, llwybrau beicio a llety i ymwelwyr. Mae'r papur yn tynnu sylw at bwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng twf twristiaeth, anghenion cymunedau lleol a diogelu asedau amgylcheddol a threftadaeth.

Mae twristiaeth yn parhau i chwarae rhan bwysig yn yr economi leol, gyda thua 870,000 o ymwelwyr yn cynhyrchu dros £134 miliwn i Gaerffili yn ystod 2024.

Asedau Twristiaeth Allweddol:

- **Castell Caerffili:** Prif atyniad ymwelwyr y fwrdeistref sirol ac yn sbardun allweddol i dwristiaeth ac adfywio canol y dref.
- **Coedwig Cwmcarn:** Cyrchfan hamdden awyr agored bwysig sy'n denu cannoedd o filoedd o ymwelwyr bob blwyddyn.
- **Parciau Gwledig:** Mae safleoedd megis Parc Penallta, Parc Cwm Darran a Pharc Coetir Bargod yn cynnig cyfleoedd poblogaidd ar gyfer cerdded, beicio a hamdden.
- **Atyniadau Treftadaeth:** Mae atyniadau gan gynnwys Llancaiach Fawr, Amgueddfa Treftadaeth Cwm Aber a safleoedd hanesyddol eraill yn helpu i arddangos hanes cyfoethog yr ardal.
- **Chwaraeon a Hamdden:** Mae'r Ganolfan Rhagoriaeth Chwaraeon a'r Hyb Hamdden a Llesiant arfaethedig yn cryfhau darpariaeth chwaraeon a hamdden y fwrdeistref.
- **Twristiaeth Weithgar:** Mae rhwydweithiau helaeth o lwybrau cerdded a beicio yn cefnogi gweithgareddau awyr agored ac yn denu ymwelwyr o'r tu allan i'r ardal.
- **Digwyddiadau:** Mae gwyliau a digwyddiadau yn helpu i gynyddu nifer yr ymwelwyr ac yn cefnogi busnesau lleol a chanol trefi.

Mae gan y fwrdeistref sirol amrywiaeth o westai, tai gwesteion, llety hunanarlwyo, safleoedd gwersylla a glampio. Er bod capasiti'r ddarpariaeth llety yn parhau'n gryf yn gyffredinol, mae nifer y darparwyr wedi lleihau yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac efallai y bydd angen buddsoddiad pellach i gefnogi twf twristiaeth yn y dyfodol.

Daw'r papur i'r casgliad bod gan Gaerffili gynnig twristiaeth cryf ac amrywiol sy'n seiliedig ar ei hamgylchedd naturiol, ei hatyniadau treftadaeth, ei gweithgareddau awyr

agored a'i rhaglen o ddigwyddiadau. Bydd buddsoddiad parhaus, diogelu atyniadau allweddol, gwella llety ymwelwyr a chefnogi datblygiad twristiaeth gynaliadwy yn bwysig er mwyn gwneud y mwyaf o fanteision economaidd a chymdeithasol twristiaeth hyd at 2035. Mae'r dystiolaeth yn cefnogi polisiau cynllunio sy'n annog twf twristiaeth priodol wrth ddiogelu asedau twristiaeth pwysig megis Castell Caerffili a Choedwig Cwmcarn.